

Pecyn Gweithgareddau Ailgylchu Nawr gyda Busta

Cyflwyniad

Mae'r pecyn gweithgareddau hwn yn cyd-fynd â'r llyfrgell ffilmiau, sydd yn cynnwys Capten Busta a Lefftenant Pong a'u harchwiliadau am wahanol fathau o ailgylchu.

Mae'r pecyn yn cynnwys cyfres eang o weithgareddau ystafell ddosbarth sydd wedi'u cysylltu â chwricwlwm Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth CA1 a CA2, a gellir eu defnyddio i annog plant i feddwl yn wahanol am wastraff ac ailgylchu. Gellir defnyddio'r gweithgareddau hefyd i ysbrydoli timau eco a helpu plant ddeall sut mae ailgylchu'n gywir yn yr ysgol ac yn y cartref. Er enghraifft, anogir plant i ddefnyddio'r Lleolydd Ailgylchu (recycleforwales.org.uk/cy/lleoliad-ailgylchu-1) fel adnodd defnyddiol i ddarganfod beth y gellir ei ailgylchu gartref ac yn eu hardal.

Mae'r pecyn hefyd yn cynnwys:

- Taflen Ffeithiau gyda nifer o ffeithiau ac ystadegau defnyddiol i chi eu defnyddio yn eich gwersi.
- Gweithgaredd archwilio a chynllun gweithredu i helpu'ch ysgol sefydlu (neu ddatblygu) cynllun lleihau gwastraff ac ailgylchu. Rydym wedi creu cyfres wych o arwyddion ailgylchu newydd, sy'n dangos Capten Busta, i chi eu defnyddio drwy'r ysgol gyfan er mwyn annog plant i ailgylchu'n iawn (ar gael o: resources.wastebuster.co.uk)

Datblygwyd y pecyn gweithgareddau hwn i gyd-fynd â chwricwlwm cenedlaethol Lloegr. Mae'r deilliannau dysgu hefyd yn berthnasol i gwricwlwm cenedlaethol Cymru. Bydd y pecyn hwn yn arbennig o ddefnyddiol i athrawon gyda'r meysydd dysgu canlynol:

Y Ddaear gynaliadwy:

- ymchwilio'r defnyddiau o'u hamgylch ac ystyried pwysigrwydd ailgylchu
- priodweddau defnyddiau sy'n ymwneud â'r defnydd a wneir ohonynt
- sut y bydd rhai defnyddiau yn cael eu ffurfio neu eu cynhyrchu
- ystyried beth yw gwastraff a beth sy'n digwydd i wastraff lleol y gellir ei ailgylchu a gwastraff nad oes modd ei ailgylchu.

Hefyd yn berthnasol:

Cyd-ddibyniaeth organebau

- sut y mae bodau dynol yn effeithio ar yr amgylchedd lleol, e.e. sbwriel, llygredd dŵr, llygredd sŵn.

Manteision i'ch Ysgol

Mae holl weithgareddau'r pecyn hwn yn gysylltiedig â'r cwricwlwm ac mae modd eu haddasu i'ch ysgol ac i anghenion unigol eich disgyblion. Maen nhw hefyd yn cynnwys camau y gall disgyblion a staff eu cymryd tuag at leihau gwastraff yn y cartref ac o fewn cymuned yr ysgol. Bydd disgyblion yn cael cyfle i ddarganfod bod gwneud newidiadau bychain yn eu bywydau bob dydd yn gallu lleihau faint o wastraff sydd yn cyrraedd y bin sbwriel, a gwneud gwahaniaeth.

Drwy ddefnyddio'r archwiliad gwastraff a'r cynllun gweithredu lleihau gwastraff (gweler y daflen gefnogol), mae'r potensial gan eich ysgol i wneud arbedion, codi arian a dangos ymroddiad i ofalu am yr amgylchedd a bod yn ysgol fwy cynaliadwy. Gallwch ddefnyddio'r gweithgaredd hwn hefyd i helpu i ennill neu gynnal gwobr Eco-Ysgolion.

Gweithgareddau cyffredinol y gallech eu cynnal sydd yn gysylltiedig ag ailgylchu

- Sefydlu tîm Wastebuster (gwaith da i eco-bwyllgor Eco-Ysgolion neu gyngor ysgol) a'u grymuso i sicrhau nad oes eitemau anghywir mewn unrhyw finiau ailgylchu ystafell ddosbarth. Gallech sefydlu rota ar gyfer gwagio manau ailgylchu a gwirio bod unrhyw eitemau a gesglir i'w dychwelyd, fel cartonau llaeth, yn cael eu gosod yn y biniau cywir ac yn barod i'w casglu. Dylai'r tîm fedru dyfarnu perfformiad gorau'r wythnos a rhoi amser chwarae ychwanegol neu gymhellid da arall i'r ysgogi'r plant. Cynhaliwch adroddiad ailgylchu dosbarth rheolaidd yn eich cyfarfodydd boreol a dathlwch y dosbarth sydd yn perfformio orau.
- Chwaraewch gêm gofio. Gofynnwch i'r plant fynd i'r Lleolydd Ailgylchu (recycleforwales.org.uk/cy/lleoliad-ailgylchu-1) i ddarganfod beth y gellir ei ailgylchu'n lleol a phrofi faint maen nhw'n ei gofio.
- Os yw'ch ysgol wedi derbyn dyfarniad Eco-Ysgolion neu achrediad arall am ailgylchu da, dathlwch eich llwyddiant drwy ddweud wrth eraill, fel rhieni a'r wasg leol, er mwyn hyrwyddo cod eco/moeseg eich ysgol.



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Ffilmiau a Gweithgareddau

Pynciau: Ailgylchu Plastig, Ailgylchu Metel, Ailgylchu Cartonau, Ailgylchu Papur a Chardfwrdd, Ailgylchu Bwyd (compostio caeëdig), Ailgylchu Bwyd (treulio anaerobig) ac Ailgylchu Nwyddau Trydanol.

Ailgylchu Plastig

Trosolwg o'r Ffilm

Mae Busta a Pong yn chwarae gêm gyda Poogle (cyfrifiadur y llong ofod), yn archwilio pa fathau o blastigion y gellir eu hailgylchu. Mae Busta a Pong yn defnyddio adnodd ar-lein o'r enw'r Lleolydd Ailgylchu i ddarganfod yn union pa blastigion y gallwch eu hailgylchu yn eich ardal leol: recycleforwales.org.uk/cy/lleoliad-ailgylchu-1.

Deilliannau Dysgu Disgyblion

- Gallu adnabod y mathau o blastig y gellir eu hailgylchu'n lleol
- Gwell ymwybyddiaeth o'r posibilïad o golli adnoddau os nad yw eitemau'n cael eu hailgylchu
- Deall manteision ailgylchu plastigion
- Deall sut i ddefnyddio'r Lleolydd Ailgylchu i ddarganfod os gellir ailgylchu plastigion yn eu hardal



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Gweithgareddau Ystafell Ddosbarth – Plastigion

Gwyddoniaeth CA1 deunyddiau bob dydd

Didolwch becynnau o'r cartref yn ddau grŵp: plastigion ailgylchadwy a sbwriel ailgylchadwy arall.

- 1 Gwiriwch beth y gellir ei ailgylchu yn eich ardal gan ddefnyddio'r Lleolydd Ailgylchu: recycleforwales.org.uk/cy/lleoliad-ailgylchu-1
- 2 Un ai rhewch gylch o amgylch yr eitemau y gellir eu hailgylchu yn eich ardal a chroesi allan y rhai nad oes modd eu hailgylchu, NEU torrwch nhw allan a gweithio gyda'ch gilydd i'w rhannu'n ddau grŵp: 1. Eitemau y gellir eu hailgylchu yn eich ardal a 2. Eitemau nad oes modd eu hailgylchu yn eich ardal



Gan fod yr eitemau y gellir eu casglu yn amrywio o ardal i ardal, argymhellwn eich bod yn defnyddio'r Lleolydd Ailgylchu gyda'r plant i wirio beth y gellir ei ailgylchu yn eich ardal cyn cwblhau'r gweithgaredd hwn, fel rhan o'r broses ddysgu: recycleforwales.org.uk/cy/lleoliad-ailgylchu-1

Cyfnod Allweddol 2 Gwyddoniaeth priodweddau a newidiadau deunyddiau

CA2 Priodweddau a Newidiadau Deunyddiau

Rhestrwch yr holl eitemau plastig sydd i'w cael mewn gwastraff o'r cartref y gellir ei ailgylchu'n lleol drwy wirio'r Lleolydd Ailgylchu: recycleforwales.org.uk/cy/lleoliad-ailgylchu-1.

Er enghraifft:

Potiau menyn

Potiau iogwrt

Poteli llaeth

Poteli siampŵ

Cynhwysydd ffrwythau

Trafodwch pa gynhyrchion y gellir eu creu drwy ailgylchu plastig. Ystyriwch os yw priodweddau'r deunydd plastig yn effeithio'r math o gynnyrch wedi'i ailgylchu y gellir ei gynhyrchu. Edrychwch ar y rhestr isod am rai esiamplau o ddeunyddiau (eitemau plastig) a'r cynhyrchion wedi'u hailgylchu y gellir eu gwneud ohonynt. Trafodwch pam mae'r eitemau hynny yn addas ar gyfer gwneud y cynhyrchion, gan ystyried priodweddau'r deunydd (fel dwysedd a hyblygrwydd):

- Poteli plastig newydd
- Padelli tyfu hadau
- Siacedi cnu
- Wadin llenwi sachau cysgu a charthenni
- Y diwydiant modur; partiau ceir fel bympars



Cyfnod Allweddol 1 Ystadegau (Mathemateg)

Ailgylchu plastig wythnosol

Dydd Llun



Dydd Mawrth



Dydd Mercher



Dydd Iau



Dydd Gwener



- Edrychwch ar y diagram. Beth yw'r enw ar y math hwn o siart?
a) Pictogram b) Siart Far c) Graff Llinell
- Ar ba ddiwrnod y cafodd y nifer fwyaf o boteli siampŵ eu hailgylchu? Dydd M _ _ _ _ _
- Sawl potel siampŵ a gafodd ei hailgylchu dydd Llun?
- Sawl potel siampŵ a gafodd ei hailgylchu dydd Mawrth?
- Sawl potel siampŵ a gafodd ei hailgylchu dydd Mercher?
- Sawl potel siampŵ a gafodd ei hailgylchu dydd Iau?
- Sawl potel siampŵ a gafodd ei hailgylchu dydd Gwener?
- Sawl potel siampŵ yn rhagor a gafodd ei hailgylchu dydd Gwener o'i gymharu â dydd Llun?
- Ar ba ddiwrnod y cafodd y nifer lleiaf o boteli siampŵ eu hailgylchu?
- Sawl potel siampŵ yn rhagor a gafodd ei hailgylchu dydd Mawrth o'i gymharu â dydd Llun?




ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Cyfnod Allweddol 2 Ystadegau (Mathemateg)

Y poteli a gafodd eu hailgylchu gan
Ddosbarth P mewn un wythnos



1. Edrychwch ar y diagram. Beth yw'r enw ar y math hwn o siart?
a) Pictogram b) Siart Far c) Graff Llinell
2. Ar ba ddiwrnod(au) y cafodd y nifer fwyaf o boteli eu hailgylchu?
3. Sawl potel a gafodd ei hailgylchu dydd Llun?
4. Sawl potel a gafodd ei hailgylchu dydd Mawrth?
5. Sawl potel a gafodd ei hailgylchu dydd Mercher?
6. Sawl potel a gafodd ei hailgylchu dydd Iau?
7. Sawl potel a gafodd ei hailgylchu dydd Gwener?
8. Sawl potel yn rhagor a gafodd ei hailgylchu dydd Gwener o'i gymharu â dydd Llun?
9. Ar ba ddiwrnod y cafodd y nifer lleiaf o boteli eu hailgylchu?
10. Sawl potel yn rhagor a gafodd ei hailgylchu dydd Mawrth o'i gymharu â dydd Llun?



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Cyfnod Allweddol 1 Ysgrifennu (Saesneg)

Dyluniwch boster gwybodaeth yn hysbysu teuluoedd pa eitemau plastig y gellir eu hailgylchu. Ceisiwch ddefnyddio cwestiynau i ennill diddordeb y darllenydd e.e. Wyddoch chi y gellir ailgylchu pob math o boteli diod?

Gweler y Daflen Ffeithiau ar wahân am ffeithiau ac ystadegau am blastigion.

Cyfnod Allweddol 2 Barddoniaeth (Saesneg)

Cyfansoddwch gerdd ar ffurf pumawd i hyrwyddo ailgylchu deunyddiau o'r cartref yn cynnwys plastigion.

Cofiwch ddefnyddio pum llinell:

Llinell 1: Teitl (enw)	1 gair
Llinell 2: Disgrifiad	2 air
Llinell 3: Berfau disgrifiadol	3 gair
Llinell 4: Teimlad (ymadrodd)	4 gair
Llinell 5: Teitl (cyfystyr â'r teitl)	1 gair

Er enghraifft:

Ailgylchu

Sortio sbwriel

Ailddefnyddio, lleihau, ailgylchu

Peidio gwastraffu adnoddau gwerthfawr

Arbed



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Ailgylchu Gwastraff Bwyd

Trosolwg o'r Ffilm

Mae yna 2 ffilm am wastraff bwyd. Yn y cyntaf, mae Busta'n darganfod mor werthfawr y gall gwastraff bwyd fod, gan fod modd ei ailgylchu a'i droi'n gompost mewn cynhwysyddion arbennig (Compostio Caeëdig). Yn y ffilm nesaf, mae Busta'n darganfod sut y gellir ailgylchu bwyd i gynhyrchu pŵer (Treulio Anaerobig). Argymhellwn eich bod yn darganfod pa ddull a ddefnyddir yn eich ardal leol (dylai'ch awdurdod lleol fedru dweud wrthyh) a dangos y ffilm berthnasol i'ch plant.

Yn y ffilm Treulio Anaerobig mae Busta'n darganfod sut, wrth ailgylchu'i groen banana, y gellir cynhyrchu pŵer gyda pheiriant ailgylchu Pong sydd yn pweru'r llong ofod. Yn y ffilm Compostio Caeëdig, mae'n darganfod sut y gall ei groen banana wedi'i ailgylchu, sydd wedi'i gymysgu â gwastraff gardd a bwyd arall, gael ei droi'n gompost. Mae Poogole yn egluro pam fod ailgylchu bwyd yn dda i'r amgylchedd yn y ddwy ffilm.

Deilliannau Dysgu

- Deall bod ailgylchu gwastraff bwyd yn cynhyrchu compost defnyddiol
- Deall bod ailgylchu gwastraff bwyd yn gallu cynhyrchu ynni
- Deall bod ailgylchu gwastraff bwyd yn opsiwn rheoli gwastraff sydd yn dda i'r amgylchedd
- Gwell ymwybyddiaeth o'r posibilïad o golli adnoddau os nad yw eitemau'n cael eu hailgylchu
- Deall sut i ddefnyddio'r Lleolydd Ailgylchu i ddarganfod os gellir ailgylchu plastigion yn eu hardal

Gweithgareddau Dosbarth – Bwyd

Cyfnod Allweddol 1 Gwyddoniaeth

CA1 Deunyddiau bob dydd

- Rhestrwch y gwastraff bwyd y mae disgyblion yn ei gynhyrchu gartref ac y gellir ei gasglu mewn cadis bwyd yn y gegin yn barod i'w ailgylchu a'i gompostio (mae hyn yn golygu popeth, yn cynnwys esgyrn, plisgyn ŵy, sbarion plât, crafion llysiau a bwyd sydd heibio'i ddyddiad wedi'i dynnu o'i becyn).
- Darganfyddwch os yw'r awdurdod lleol yn eich ardal yn casglu gwastraff bwyd drwy ddefnyddio'r Lleolydd Ailgylchu (recycleforwales.org.uk/cy/lleoliad-ailgylchu-1)

Cyfnod Allweddol 2 Gwyddoniaeth

CA2 Priodweddau a newidiadau deunyddiau

- Dyluniwch bamffled sydd yn egluro sut y caiff gwastraff bwyd ei gompostio gan ddefnyddio Compostio Caeëdig neud sut gall Treulio Anaerobig gynhyrchu trydan



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Cyfnod Allweddol 1: Ystadegau (Mathemateg)

Ailgylchu bwyd wythnosol

Dydd Llun



Dydd Mawrth



Dydd Mercher



Dydd Iau



Dydd Gwener



1. Edrychwch ar y diagram. Beth yw'r enw ar y math hwn o siart?
a) Pictogram b) Siart Far c) Graff Llinell
2. Ar ba ddiwrnod y cafodd y nifer fwyaf o greiddiau afalau eu hailgylchu? Dydd G _____
3. Sawl craidd afal a gafodd ei ailgylchu dydd Llun?
4. Sawl craidd afal a gafodd ei ailgylchu dydd Mawrth?
5. Sawl craidd afal a gafodd ei ailgylchu dydd Mercher?
6. Sawl craidd afal a gafodd ei ailgylchu dydd Iau?
7. Sawl craidd afal a gafodd ei ailgylchu dydd Gwener?
8. Sawl craidd afal yn rhagor a gafodd ei ailgylchu dydd Gwener o'i gymharu â dydd Llun?
9. Ar ba ddiwrnod y cafodd y nifer lleiaf o greiddiau afalau eu hailgylchu?
10. Sawl craidd afal yn rhagor a gafodd ei ailgylchu dydd Llun o'i gymharu â dydd Mawrth?




ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Cyfnod Allweddol 2 Ystadegau (Mathemateg)

Y bwyd a gafodd ei ailgylchu gan
Ddosbarth P mewn un wythnos



- Edrychwch ar y diagram. Beth yw'r enw ar y math hwn o siart?
a) Pictogram b) Siart Far c) Graff Llinell
- Ar ba ddiwrnod y cafodd y mwyaf o fwyd ei ailgylchu?
- Sawl darn o fwyd a gafodd ei ailgylchu dydd Llun?
- Sawl darn o fwyd a gafodd ei ailgylchu dydd Mawrth?
- Sawl darn o fwyd a gafodd ei ailgylchu dydd Mercher?
- Sawl darn o fwyd a gafodd ei ailgylchu dydd Iau?
- Sawl darn o fwyd a gafodd ei ailgylchu dydd Gwener?
- Sawl darn o fwyd yn rhagor a gafodd ei ailgylchu dydd Gwener o'i gymharu â dydd Llun?
- Ar ba ddydd(iau) y cafodd y lleiaf o fwyd ei ailgylchu?
- Sawl darn o fwyd yn rhagor a gafodd ei ailgylchu dydd Mawrth o'i gymharu â dydd Llun?



ailgylchu dros Gymru
recycle for Wales



Cyfnod Allweddol 1 Ysgrifennu (Saesneg)

Ysgrifennwch dair brawddeg yn disgrifio sut mae ailgylchu bwyd gartref.

Cyfnod Allweddol 2 Barddoniaeth (Saesneg)

Dyluniwch bamffled yn hybu ailgylchu gwastraff bwyd (un ai ar gyfer ei gompostio neud drwy gasgliad gan y cyngor) neu ysgrifennwch ddadl yn trafod manteision ac anfanteision ailgylchu gwastraff bwyd.

Ailgylchu Cartonau

Trosolwg o'r Ffilm

Mae Busta a Pong yn edrych ar sut y gellir ailgylchu cartonau sydd yn cynnwys llaeth, sudd, cawl a bwydydd eraill. Mae Busta a Pong yn rinsio ac yn gwasgu'r cartonau cyn eu rhoi yn y bin ailgylchu. Mae Poole wedyn yn dangos i Busta sut mae cartonau'n cael eu hailgylchu.

Deilliannau Dysgu

- Deall bod ailgylchu cartonau yn opsiwn rheoli gwastraff sydd yn dda i'r amgylchedd
- Gwell ymwybyddiaeth o'r posibilïad o golli adnoddau os nad yw eitemau'n cael eu hailgylchu
- Deall sut i ddefnyddio'r Lleolydd Ailgylchu i ddarganfod os gellir ailgylchu plastigion yn eu hardal



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Gweithgareddau Ystafell Ddosbarth – Cartonau

Cyfnod Allweddol 1 Gwyddoniaeth deunyddiau bob dydd

Ceisiwch ddiolli pecynnau o'r cartref yn gartonau, cynhwysyddion plastig a photeli gwydr. Disgrifiwch sut y mae gan ddeunyddiau'r gwahanol gynhwysyddion wahanol briodweddau.



Cyfnod Allweddol 2 Gwyddoniaeth priodweddau a newidiadau deunyddiau

Archwiliwch sut mae cartonau'n cael eu hailgylchu a beth mae'r cynnyrch wedi'i ailgylchu (bwrdd carton) yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer. Yw ailgylchu cartonau'n newid cildroadwy neu'n newid anghildroadwy?



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Cyfnod Allweddol 1 Ystadegau (Mathemateg)

Ailgylchu cartonau wythnosol

Dydd Llun



Dydd Mawrth



Dydd Mercher



Dydd Iau



Dydd Gwener



1. Edrychwch ar y diagram. Beth yw'r enw ar y math hwn o siart?
a) Pictogram b) Siart Far c) Graff Llinell
2. Ar ba ddiwrnod y cafodd y nifer fwyaf o gartonau eu hailgylchu? Dydd G _ _ _ _
3. Sawl carton a gafodd ei ailgylchu dydd Llun?
4. Sawl carton a gafodd ei ailgylchu dydd Mawrth?
5. Sawl carton a gafodd ei ailgylchu dydd Mercher?
6. Sawl carton a gafodd ei ailgylchu dydd Iau?
7. Sawl carton a gafodd ei ailgylchu dydd Gwener?
8. Sawl carton yn rhagor a gafodd ei ailgylchu dydd Gwener o'i gymharu â dydd Llun?
9. Ar ba ddiwrnod y cafodd y nifer lleiaf o gartonau eu hailgylchu?
10. Sawl carton yn rhagor a gafodd ei ailgylchu dydd Llun o'i gymharu â dydd Mawrth?




ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Cyfnod Allweddol 2 Ystadegau (Mathemateg)

Y cartonau a gafodd eu hailgylchu gan
Ddosbarth P mewn un wythnos



1. Edrychwch ar y diagram. Beth yw'r enw ar y math hwn o siart?
a) Pictogram b) Siart Far c) Graff Llinell
2. Ar ba ddiwrnod y cafodd y nifer fwyaf o gartonau eu hailgylchu?
3. Sawl carton a gafodd ei ailgylchu dydd Llun?
4. Sawl carton a gafodd ei ailgylchu dydd Mawrth?
5. Sawl carton a gafodd ei ailgylchu dydd Mercher?
6. Sawl carton a gafodd ei ailgylchu dydd Iau?
7. Sawl carton a gafodd ei ailgylchu dydd Gwener?
8. Sawl carton yn rhagor a gafodd ei ailgylchu dydd Gwener o'i gymharu â dydd Llun?
9. Ar ba ddiwrnod y cafodd y nifer lleiaf o gartonau eu hailgylchu?
10. Sawl carton yn rhagor a gafodd ei ailgylchu dydd Mawrth o'i gymharu â dydd Llun?



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Cyfnod Allweddol 2 Ysgrifennu (Saesneg)

Mae rhai bwydydd yn cael eu pecynnu mewn cartonau

Lluniwch restr o fwydydd y gellir eu pecynnu mewn cartonau. (Rhaid esiamplau o fwydydd sydd yn cael eu pecynnu mewn cartonau: llaeth, sudd, cawl, cwstard)

Ysgrifennwch ddwy neu dair brawddeg yn egluro sut y dylech ailgylchu cartonau gartref (rinsio, gwasgu, rhoi'r caead yn ôl arno os oes modd)

Cyfnod Allweddol 2 Ysgrifennu (Saesneg)

Ysgrifennwch ddeg cyngor defnyddiol ar gyfer ailgylchu cartonau gartref ac yn yr ysgol. Dyma weithgaredd gwych i'w gynnal ar gyfer pob math o wastraff.

Esiamplau:

Ailgylchu yn y cartref

- Cadwch fin ailgylchu ym mhob ystafell yn eich cartref
- Gwiriwch ar y Lleolydd Ailgylchu i weld beth y gellir ei ailgylchu: recycleforwales.org.uk/cy/lleoliad-ailgylchu-1
- Sicrhewch fod pawb yn gwybod y gellir ailgylchu cartonau yn eich bin ailgylchu gartref (mae gosod poster yn y gegin yn ddelfrydol)
- Gwnewch yn siŵr eu bod yn wag ac wedi'u rinsio

Ailgylchu yn yr ysgol

- Rhewch y biniau sbwriel a'r manau ailgylchu gyda'i gilydd fel ei bod mor hawdd ailgylchu ag y mae i daflu pethau i'r sbwriel
- Labelwch y biniau ailgylchu yn eich ysgol fel bod pobl yn gwybod y gellir ailgylchu cartonau ac i osgoi'r pethau anghywir gael eu rhoi yn y biniau

Mae yna gyfres o arwyddion dwyieithog newydd gyda Chaptin Busta arnynt ar gael i chi eu defnyddio yn eich ysgol. Gallwch lawrlwytho'r gyfres o: resources.wastebuster.co.uk.

Yn yr ysgol, gwiriwch a yw cwmnïau'n derbyn dychweliadau fel cartonau llaeth i'w hailgylchu.



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Ailgylchu Nwyddau Trydanol

Trosolwg o'r Ffilm

Mae'r ffilm hon yn dangos bod offer trydanol wedi'i wneud o amrywiaeth o wahanol ddeunyddiau, a gellir ailgylchu nifer o'r rhain. Mae Busta a Pong yn egluro mai gwastraff trydanol sydd yn tyfu gyflymaf o blith gwastraff hawdd i'w ailgylchu. Mae Poogle yn egluro pam y dylid ailgylchu nwyddau trydanol cyn dangos beth sydd yn digwydd i eitemau o wastraff trydanol o gael eu hailgylchu.

Deilliannau Dysgu

- Deall bod ailgylchu offer trydanol yn opsiwn rheoli gwastraff sydd yn dda i'r amgylchedd
- Gwell ymwybyddiaeth o'r posibilïad o golli adnoddau os nad yw eitemau'n cael eu hailgylchu
- Deall sut mae defnyddio'r Lleolydd Ailgylchu i ddarganfod os gellir ailgylchu gwastraff trydanol ac electronig yn eu hardal, ar y stepen drws neu yng Nghanolffannau Ailgylchu'r Cyngor: recycleforwales.org.uk/cy/lleoliad-ailgylchu-1



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Gweithgareddau Ystafell Ddosbarth – Offer Trydanol

Cyfnod Allweddol 1 Gwyddoniaeth, deunyddiau bob dydd

CA1 Deunyddiau bob dydd

Lluniwch restr o'r gwastraff trydanol mae cartrefi yn dueddol o'u taflu, er enghraifft ffonau, tegellau, tostwyr, oergelloedd, rhewgelloedd, sychwyr gwallt, PS4, setiau teledu, gliniaduron ac ati.

Defnyddiwch y Lleolydd Ailgylchu i ddangos i'r plant sut i ddarganfod lle mae modd eu hailgylchu'n lleol: recycleforwales.org.uk/cy/lleoliad-ailgylchu-1

Ymchwiliwch i'r deunyddiau ailgylchadwy pwysig a geir mewn gwastraff trydanol. Edrychwch ar y Daflen Ffeithiau am fanylion, ac ewch i'r wefan: <http://www.recycleforwales.org.uk/cy/what-to-do-with/eitemau-trydanol>

Cyfnod Allweddol 2 Gwyddoniaeth priodweddau a newidiadau i ddeunyddiau

Rhestrwch yr holl ddeunyddiau a geir mewn gwastraff trydanol y gellir eu hailgylchu.

Ceisiwch enwi'r gwahanol fathau o fetelau, plastigion a deunyddiau peryglus a geir mewn amrywiaeth o offer trydanol.



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Cyfnod Allweddol 1 Ystadegau (Mathemateg)

Ailgylchu trydanol wythnosol

Dydd Llun



Dydd Mawrth



Dydd Mercher



Dydd Iau



Dydd Gwener



- Edrychwch ar y diagram. Beth yw'r enw ar y math hwn o siart?
a) Pictogram b) Siart Far c) Graff Llinell
- Ar ba ddiwrnod y cafodd y nifer fwyaf o degellau eu hailgylchu? Dydd M _ _ _ _ _
- Sawl tegell a gafodd ei ailgylchu dydd Llun?
- Sawl tegell a gafodd ei ailgylchu dydd Mawrth?
- Sawl tegell a gafodd ei ailgylchu dydd Mercher?
- Sawl tegell a gafodd ei ailgylchu dydd Iau?
- Sawl tegell a gafodd ei ailgylchu dydd Gwener?
- Sawl tegell yn rhagor a gafodd ei ailgylchu dydd Mercher o'i gymharu â dydd Gwener?
- Ar ba ddiwrnod y cafodd y nifer lleiaf o degellau eu hailgylchu?
- Sawl tegell yn rhagor a gafodd ei ailgylchu dydd Mawrth o'i gymharu â dydd Gwener?




ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Cyfnod Allweddol 2 Ystadegau (Mathemateg)

Yr offer trydanol a gafodd ei hailgylchu gan
Ddosbarth P mewn un wythnos



- Edrychwch ar y diagram. Beth yw'r enw ar y math hwn o siart?
a) Pictogram b) Siart Far c) Graff Llinell
- Ar ba ddiwrnod y cafodd y nifer fwyaf o nwyddau electronig eu hailgylchu? Dydd M _____
- Sawl eitem electronig a gafodd ei hailgylchu dydd Llun?
- Sawl eitem electronig a gafodd ei hailgylchu dydd Mawrth?
- Sawl eitem electronig a gafodd ei hailgylchu dydd Mercher?
- Sawl eitem electronig a gafodd ei hailgylchu dydd Iau?
- Sawl eitem electronig a gafodd ei hailgylchu dydd Gwener?
- Sawl eitem electronig yn rhagor a gafodd ei hailgylchu dydd Gwener o'i gymharu â dydd Llun?
- Ar ba ddiwrnod y cafodd y nifer lleiaf o nwyddau electronig eu hailgylchu?
- Sawl eitem electronig yn rhagor a gafodd ei hailgylchu dydd Mawrth o'i gymharu â dydd Llun?



ailgylchu dros Gymru
recycle for Wales



Cyfnod Allweddol 1 Ysgrifennu (Saesneg)

Lluniwch restr o'r eitemau trydanol ac electronig sydd yn cael eu defnyddio bob bore gartref e.e. rhestr o eitemau a ddefnyddiwn wrth godi, cael brecwast a dod i'r ysgol.

Cyfnod Allweddol 1 Ysgrifennu (Saesneg)

Ysgrifennwch adroddiad am faint o wastraff trydanol sydd yn cael ei gynhyrchu'n flynyddol yn y Deyrnas Unedig, sut y gellir ailgylchu gwastraff trydanol yn eich ardal a manteision ailgylchu.



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Ailgylchu Metelau

Trosolwg o'r Ffilm

Mae Poogle yn tywys Busta a Pong drwy broses ailgylchu metelau. Mae Pong yn darganfod fod cramen y Ddaear yn cynnwys mwynau sydd yn gallu cael eu puro'n fetelau. Mae Poogle yn egluro manteision ailgylchu metelau.

Deilliannau Dysgu

- Adnabod y gwahaniaeth rhwng metelau magnetig (fferomagnetig) ac anfagnetig (anfferofagnetig), a geir mewn eitemau metel
- Deall bod ailgylchu metelau'n opsiwn rheoli gwastraff sydd yn dda i'r amgylchedd
- Deall bod ailgylchu metel yn troi eitemau o wastraff metel yn gynhyrchion metel newydd
- Gwell ymwybyddiaeth o'r posibilïad o golli adnoddau os nad yw eitemau'n cael eu hailgylchu
- Deall sut i ddefnyddio'r Lleolydd Ailgylchu i ddarganfod os gellir ailgylchu plastigion yn eu hardal: recycleforwales.org.uk/cy/lleoliad-ailgylchu-1



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Gweithgareddau Ystafell Ddosbarth – Metelau

Cyfnod Allweddol 1: Gwyddoniaeth deunyddiau bob dydd

Cynhaliwch brawf i weld os yw deunyddiau amrywiol yn cynnwys dur drwy ddefnyddio magnet.

Cyfnod Allweddol 2: Gwyddoniaeth priodweddau a newidiadau i ddefnyddiau

Archwiliwch sut y gellir gwahanu cymysgeddau o ddeunyddiau gan ddefnyddio magnetau, toddyddion a hidlyddion. Trafodwch pam fod hyn yn bwysig wrth wahanu gwastraff o'r cartref mewn canolfannau ailgylchu.



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Cyfnod Allweddol 1 Ystadegau (Mathemateg)

Ailgylchu metel wythnosol

Dydd Llun



Dydd Mawrth



Dydd Mercher



Dydd Iau



Dydd Gwener



- Edrychwch ar y diagram. Beth yw'r enw ar y math hwn o siart?
a) Pictogram b) Siart Far c) Graff Llinell
- Ar ba ddiwrnod y cafodd y nifer fwyaf o ganiau eu hailgylchu? Dydd M _____
- Sawl can a gafodd ei ailgylchu dydd Llun?
- Sawl can a gafodd ei ailgylchu dydd Mawrth?
- Sawl can a gafodd ei ailgylchu dydd Mercher?
- Sawl can a gafodd ei ailgylchu dydd Iau?
- Sawl can a gafodd ei ailgylchu dydd Gwener?
- Sawl can yn rhagor a gafodd ei ailgylchu dydd Mercher o'i gymharu â dydd Gwener?
- Ar ba ddiwrnod y cafodd y nifer lleiaf o ganiau eu hailgylchu?
- Sawl can yn rhagor a gafodd ei ailgylchu Gwener o'i gymharu â dydd Mawrth?




ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Cyfnod Allweddol 2 Ystadegau (Mathemateg)

Y tuniau a'r caniau a gafodd eu hailgylchu
gan Ddosbarth P mewn un wythnos



- Edrychwch ar y diagram. Beth yw'r enw ar y math hwn o siart?
a) Pictogram b) Siart Far c) Graff Llinell
- Ar ba ddiwrnod y cafodd y nifer fwyaf o duniau a chaniau eu hailgylchu? Dydd M _____
- Faint o duniau a chaniau a gafodd eu hailgylchu dydd Llun?
- Faint o duniau a chaniau a gafodd eu hailgylchu dydd Mawrth?
- Faint o duniau a chaniau a gafodd eu hailgylchu dydd Mercher?
- Faint o duniau a chaniau a gafodd eu hailgylchu dydd Iau?
- Faint o duniau a chaniau a gafodd eu hailgylchu dydd Gwener?
- Faint o duniau a chaniau yn rhagor a gafodd eu hailgylchu dydd Gwener o'i gymharu â dydd Iau?
- Ar ba ddiwrnod y cafodd y nifer lleiaf o duniau a chaniau eu hailgylchu?
- Sawl tun neu gan yn rhagor a gafodd ei ailgylchu dydd Mawrth o'i gymharu â dydd Llun?



ailgylchu dros Gymru
recycle for Wales



Cyfnod Allweddol 1 Ysgrifennu (Saesneg)

Dyluniwch boster gwybodaeth i hysbysu teuluoedd fod angen gwagio a rinsio caniau metel cyn eu rhoi yn y bin ailgylchu.

Cyfnod Allweddol 2 Ysgrifennu (Saesneg)

Ysgrifennwch daflen ffeithiau yn egluro pam mae ailgylchu metelau'n helpu i warchod yr amgylchedd.

Defnyddiwch iaith dechnegol ac ymchwiliwch y ffeithiau: recycleforwales.org.uk/cy/what-to-do-with/tuniau-bwyd-chaniau-diod

Er enghraifft

Gellir ailgylchu 100% o gynhyrchion dur.

Mae ailgylchu un dunnell o ddur yn arbed 1200 kg o fwyn haearn a 500kg o lo.

Mae'r ynni sydd yn cael ei arbed drwy ailgylchu un can alwminiwm yn ddigon i bweru teledu am dair awr (gweler y Daflen Ffeithiau ar wahân ar gyfer ffeithiau ac ystadegau perthnasol).



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Ailgylchu Papur a Chardfwrdd

Trosolwg o'r Ffilm

Mae'r ffilm hon yn dangos sut mae ailgylchu papur a chardfwrdd yn rhwydd. Mae Poogle yn egluro i Busta a Pong sut gaiff papur a chardfwrdd ei ailgylchu a'i droi'n gynhyrchion papur o'r newydd.

Deilliannau Dysgu

- Deall bod ailgylchu papur a chardfwrdd yn opsiwn rheoli gwastraff sydd yn dda i'r amgylchedd
- Adnabod yr amrywiol eitemau sydd wedi'u gwneud o bapur a chardfwrdd a didoli'r rhai y gellir eu hailgylchu er mwyn lleihau halogiad
- Deall bod ailgylchu papur a chardfwrdd yn troi eitemau o wastraff papur yn gynhyrchion papur a chardfwrdd newydd
- Gwell ymwybyddiaeth o'r posibiliad o golli adnoddau os nad yw eitemau'n cael eu hailgylchu
- Deall sut mae defnyddio'r Lleolydd Ailgylchu i ddarganfod os gellir ailgylchu papur a chardfwrdd yn eu hardal recycleforwales.org.uk/cy/lleoliad-ailgylchu-1



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Gweithgareddau Ystafell Ddosbarth – Papur a Cherdyn

Cyfnod Allweddol 1 Gwyddoniaeth deunyddiau bob dydd

CA1 Deunyddiau bob dydd

Gall disgyblion grwpio a dosbarthu gwahanol fathau o bapur a cherdyn gwastraff (papur crêp, papur swyddfa ac ati) a gweld os yw'r eitemau wedi'u gwneud o bapur/cardfwrdd (ailgylchadwy) yn unig neu os oes deunyddiau eraill fel plastig yn rhan ohonyn nhw. Enghraifft o hyn fyddai cwpanau coffi a pheccynnau brechdanau wedi'u lamineiddio.

Cyfnod Allweddol 2 Gwyddoniaeth, priodweddau a newidiadau deunyddiau

Penderfynwch pa rai o'r eitemau papur a cherdyn y gellir eu hailgylchu a pha rai nad oes modd eu hailgylchu ac ymchwiliwch i ddarganfod pam; er enghraifft os oes leinin plastig arno, neu unrhyw ddeunydd arall a fyddai'n halogi'r ailgylchu, fel llwch llachar ar gardiau pen-blwydd, a pham y gallai hyn achosi problem yn y broses ailgylchu. Darganfyddwch pa gynhyrchion y gellir eu gwneud o'r deunydd wedi'i ailgylchu.

Eitemau (oes modd ei ailgylchu?):

Papurau newydd	OES
Cylchgronau	OES
Llyfrau	OES
Papur swyddfa wedi'i rwygo'n fân	OES
Bocsys cardfwrdd	OES
Cartonau	OES
Bocsys grawnfwyd	OES
Cardiau pen-blwydd gyda llwch llachar	NAC OES
Papur pobi wedi'i gwro	NAC OES
Sticeri	NAC OES
Cewynnau	NAC OES
Bocsys pítsa gyda phítsa ynddynt	NAC OES



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Cyfnod Allweddol 1 Ystadegau (Mathemateg)

Ailgylchu cardfwrdd wythnosol

Dydd Llun



Dydd Mawrth



Dydd Mercher



Dydd Iau



Dydd Gwener



- Edrychwch ar y diagram. Beth yw'r enw ar y math hwn o siart?
a) Pictogram b) Siart Far c) Graff Llinell
- Ar ba ddiwrnod y cafodd y nifer fwyaf o focsys grawnfwyd eu hailgylchu? Dydd G_____
- Sawl bocs grawnfwyd a gafodd ei ailgylchu dydd Llun?
- Sawl bocs grawnfwyd a gafodd ei ailgylchu dydd Mawrth?
- Sawl bocs grawnfwyd a gafodd ei ailgylchu dydd Mercher?
- Sawl bocs grawnfwyd a gafodd ei ailgylchu dydd Iau?
- Sawl bocs grawnfwyd a gafodd ei ailgylchu dydd Gwener?
- Sawl bocs grawnfwyd yn rhagor a gafodd ei ailgylchu dydd Mawrth o'i gymharu â dydd Iau?
- Ar ba ddiwrnod y cafodd y nifer lleiaf o focsys grawnfwyd eu hailgylchu?
- Sawl bocs grawnfwyd yn rhagor a gafodd ei ailgylchu dydd Gwener o'i gymharu â dydd Llun?




ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Cyfnod Allweddol 2 Ystadegau (Mathemateg)

Y cardfwrdd a gafodd ei ailgylchu gan
Ddosbarth P mewn un wythnos



1. Edrychwch ar y diagram. Beth yw'r enw ar y math hwn o siart?
a) Pictogram b) Siart Far c) Graff Llinell

2. Ar ba ddiwrnod y cafodd y mwyaf o gardfwrdd ei ailgylchu?

Dydd M _ _ _ _

3. Faint o gardfwrdd a gafodd ei ailgylchu dydd Llun?

.....

4. Faint o gardfwrdd a gafodd ei ailgylchu dydd Mawrth?

.....

5. Faint o gardfwrdd a gafodd ei ailgylchu dydd Mercher?

.....

6. Faint o gardfwrdd a gafodd ei ailgylchu dydd Iau?

.....

7. Faint o gardfwrdd a gafodd ei ailgylchu dydd Gwener?

.....

8. Faint yn rhagor o gardfwrdd a gafodd ei ailgylchu dydd Mawrth o'i gymharu â dydd Iau?

.....

9. Ar ba ddiwrnod y cafodd y lleiaf o gardfwrdd ei ailgylchu?

.....

10. Faint yn rhagor o gardfwrdd a gafodd ei ailgylchu dydd Gwener o'i gymharu â dydd Llun?

.....

Cyfnod Allweddol 1 Ysgrifennu (Saesneg)

Defnyddiwch y gair AILGYLCHU i ysgrifennu cerdd acrostig.

Dechreuwch bob llinell gyda llythrennau'r gair AILGYLCHU.

Nid oes angen i gerddi acrostig odli, a gall pob llinell fod mor hir neu mor fyr ag y dymunwch.

Cyfnod Allweddol 2 Ysgrifennu (Saesneg)

Ysgrifennwch, gyda lluniau, gamau'r broses ailgylchu ar gyfer papur a chardfwrdd.



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Amdanom ni



Ymgyrch cyhoeddus WRAP Cymru yw Ailgylchu dros Gymru. Mae WRAP yn elusen, a'i gweledigaeth yw byd ble caiff adnoddau eu defnyddio mewn modd cynaliadwy. Mae WRAP yn gweithio gyda llywodraethau, busnesau a chymunedau i ddarparu datrysiadau ymarferol i wella effeithlonrwydd adnoddau.

Ein cenhadaeth yw cyflymu'r symudiad tuag at economi sy'n gynaliadwy ac yn effeithlon gydag adnoddau drwy:

- ail-greu'r modd rydyn ni'n dylunio, cynhyrchu a gwerthu cynhyrchion
 - ail-feddwl sut rydyn ni'n defnyddio a bwyta cynhyrchion
 - ail-ddiffinio beth sy'n bosibl drwy ail-ddefnyddio ac ailgylchu
-
- Mae WRAP yn arwain y byd gyda helpu mudiadau i gyflawni gwell effeithlonrwydd adnoddau.
 - Mae gan WRAP hanes o lwyddo. Rhwng 2010 a 2015 yn Lloegr yn unig, lleihawyd allyriadau nwyon tŷ gwydr gan bron i 50 miliwn tonnell (Mt) gan fentrau WRAP, sydd yn gyfwerth ag allyriadau carbon deuocsid blyneddol Portiwgal.
 - Maent yn cynnig gwybodaeth, adnoddau a chynghor ymarferol sydd yn helpu llywodraethau, busnesau a chwsmeriaid i weithredu.
 - Maent yn cynnig amgylchedd diogel, anghystadleuol lle gall busnesau rannu arfer gorau a chydweithio i gyflawni newid.

Ailgylchu dros Gymru

Gwefan: ailgylchudrosgymru.org.uk

Ebost: jackie.bailey@wrap.org.uk



ailgylchu dros Gymru
recycle for Wales





Menter gymdeithasol nid er elw yw Wastebuster CIC, cwmni budd cymunedol sydd yn cyflwyno rhaglen addysg gwastraff genedlaethol i ysgolion. Mae'r rhaglen wedi'i dylunio i feithrin gwerthoedd, agweddau ac ymddygiad cadarnhaol. Mae Wastebuster yn arbenigo mewn ymgyrchoedd addysg amgylcheddol, lleihau gwastraff ac ailgylchu sydd yn annog plant i gario'r negeseuon o'r cwricwlwm i'r campws ac allan i'r gymuned. Yn ei hanfod, nod Wastebuster yw ymgysylltu, hysbysu a grymuso plant i chwarae rhan uniongyrchol a gweithgar mewn llunio'u dyfodol.

Mae'r rhan helaeth o waith Wastebuster yn cynnwys partneriaethau a chydweithio. Mae Wastebuster yn gweithio ar y cyd ag asiantaethau nid er elw, mudiadau anllywodraethol ac elusennau ac yn creu perthynas gyda chynghorau lleol, swyddfeydd llywodraeth rhanbarthol a chwmnïau gwastraff a gwasanaethau. Maen nhw hefyd yn gweithio gyda busnesau sy'n dymuno gweithredu newid cadarnhaol fel rhan o'u hymrwymiad Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol.

Wastebuster

Gwefan: wastebuster.co.uk

Ebost: info@wastebuster.co.uk



Mewn partneriaeth â'r Ocado foundation.



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales

